**EOC-01-02(cof)**

# PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

## COFNODION

Dyddiad: 30 Ionawr 2002

Amser: 9.30am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3&4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

Aelodau Edwina Hart (Cadeirydd) Gwyr

Eleanor Burnham Gogledd Cymru

Christine Chapman Cwm Cynon

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Huw Lewis Merthyr Tudful a Rhymni

Val Lloyd Dwyrain Abertawe

Helen Mary Jones Llanelli

David Melding Canol De Cymru

Janet Ryder Gogledd Cymru

Owen John Thomas Canol De Cymru

Cynghorwyr Mashuq Ally Pennaeth y Comisiwn Cydraddoldeb

i’r Pwyllgor Hiliol yng Nghymru

Kate Bennett Comisiwn Cyfle Cyfartal

Cyflwyniadau Niall Crowley Prif Weithredwr Awdurdod

i’r Pwyllgor Cydraddoldeb Iwerddon

Jonathan Booth Cangen Amrywiaeth a

Chydraddoldeb, Adran Masnach

a Diwydiant

Roger Dennison Cangen Amrywiaeth a

Chydraddoldeb, Adran Masnach

a Diwydiant

Swyddogion Julie Bragg Tîm Recriwtio a Dewis

Elisabeth Jones Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol

Laurie Pavelin Adran Atebolrwydd Ariannol

Steve Phillips Adran Cynllunio Ariannol

Jon Shortridge Ysgrifennydd Parhaol

Vanessa Young Adran Cynllunio Ariannol

Howell Rees Clerc i’r Pwyllgor

James Owen Dirprwy Glerc i’r Pwyllgor

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

Papur: EOC-01-02 (p. 1)

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Peter Rogers, Lorraine Barrett a Will Bee.

2. Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ysgrifenedig oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r aelodau ar y datblygiadau ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

   Cododd yr aelodau bryderon ynglyn â chyhoeddi Papur Gwyn ym mis Chwefror yn amlinellu newidiadau i’r system lloches. Trafodwyd yn arbennig addasrwydd y trefniadau llety i geiswyr lloches yng Nghymru. Ystyriai yr aelodau ei bod hi’n bwysig bod awdurdodau lleol a’r Cynulliad yn cydlynu i sicrhau bod llety addas ar gael i geiswyr lloches yng Nghymru. Ymgymerodd y Cadeirydd i ddiweddaru’r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau ac ar drafodaethau â’r Swyddfa Gartref.

3. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ar nifer o ddatblygiadau cydraddoldeb eraill:

- Bu’r Diwrnod Rhyngwladol i’r Anabl yn llwyddiant ac roedd swyddogion yn paratoi pecyn gwybodaeth i bobl ifanc a fynychodd mewn cysylltiad â’r

Comisiwn Hawliau i'r Anabl (DRC) a chyrff gwirfoddol anabledd. Yn dilyn

hynny derbyniodd y Cynulliad y model cymdeithasol ar gyfer anabledd ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i wneud y diwrnod yn ddigwyddiad blynyddol. Gofynnodd y Cadeirydd am gael adroddiad yn yr haf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y materion a godwyd yn y digwyddiad. (**pwynt gweithredu**)

- Cododd Dr Kevin Fitzpatrick, Comisiynydd y DRC yng Nghymru y posibilrwydd y gallai'r Cynulliad gynnal Cyngres Ryngwladol Pobl Ifanc Anabl yn ystod haf 2003. Addawodd y Cadeirydd i roi gwybodaeth i'r pwyllgor ar y datblygiad hwn.

(**pwynt gweithredu**)

- Cyfarfu'r Cadeirydd â chynrychiolwyr o TUC Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Gweithgor y DRC ac ELWa i drafod prosiect a fydd yn mynd i'r afael â dyslecsia yn y gweithle. Cytunodd ELWa i ddatblygu'r prosiect a gwnaeth y Cadeirydd gais bod yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar unrhyw ddatblygiadau.
- Cyfarfu'r Cadeirydd â chynrychiolwyr TUC Cymru, y CBI, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r DRC i drafod rhagolygon gwaith i bobl anabl, ffyrdd o leihau damweiniau yn y gweithle, cadw gweithle ac adsefydlu.
- Addawodd y Cadeirydd i ddarparu nodyn ar y cynnydd gyda llinell gymorth y Comisiwn Hawliau i'r Anabl i siaradwyr Cymraeg i'r Pwyllgor. (**pwynt gweithredu**)

1. Rhoddodd David Melding, Cadeirydd y Gweithgor ar Gyflog Cyfartal adroddiad ynglyn â'r sefyllfa ddiweddara i'r Pwyllgor. Adroddod y Cadeirydd bod y gyllideb wedi ei chymeradwyo a byddai unigolyn yn cael ei gyflogi i fynd gyda'r stondin arddangos. Nododd y pwyllgor bod Swyddfa Archwilio Genedlaethol'r Cwnsler Cyffredinol wedi cynghori bod angen i'r ymgyrch gael ffocws Cymreig.

Cytunwyd ar y canlynol:

- Byddai tri digwyddiad yn cael eu cynnal ar yr un pryd ar draws Cymru ar 7 Mawrth 2002.
- Byddai cynnig yn cael ei drafod mewn Cyfarfod Llawn ar 7 Mawrth a byddai'r gweithgor yn cynghori'r pwyllgor ar y testun.
- Byddai cynllun y poster, a phob deunydd gweledol arall a gynhyrchir yn cael eu gwirio am eglurder gyda'r DRC.
- Byddai trafodaethau yn cael eu cynnal gyda phartneriaid, yn cynnwys llywodraeth leol a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar eu rôl yn lledaenu gwybodaeth.
- Byddai'r fideo yn canolbwyntio ar bobl ifanc a byddai cais yn cael ei roi i ELWa a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd am eu cymorth.
- Addawodd y Cadeirydd i fynd at y sector preifat i geisio eu cael hwy i ymhel â'r ymgyrch.

- Byddai’r stondin arddangos yn cael ei defnyddio yn yr holl brif ddigwyddiadau yng Nghymru ac, os oedd y pleidiau gwleidyddol yn cytuno, yng nghynadleddau’r pleidiau.

**Eitem 2: Cynllun Gweithredu Adroddiad McKenzie**

Papur: EOC-01-02(tud.2)

1. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol, Jon Shortridge y papur. Rhoddwyd gwybod

   i’r pwyllgor allan o’r 43 o argymhellion a wnaed yn adroddiad McKenzie, ‘Lifting Every Voice’, dau argymhelliad yn unig, a oedd yn ymwneud ag archwilio’r gweithrediadau eraill, oedd heb eto fod yn y broses o gael eu rhoi ar waith, neu wedi eu rhoi ar waith eisoes. Roedd Grwp Gweithredu McKenzie yn ymgynghori gyda Ochr yr Undebau Llafur ar y strategaeth recriwtio a defnyddio ddrafft a byddai’r ymgynghori gyda’r staff yn dechrau o 1 Chwefror 2002.

2. Y rhannau o’r adroddiad oedd ag angen fwyaf o ystyriaeth oedd yr argymhellion yn ymwneud â recriwtio agored a phenodi i swyddi yn hytrach na graddfeydd. Byddai swyddi gwag yn cael eu llenwi drwy recriwtio agored yn hytrach na dyrchafu mewnol ar wahân i amgylchiadau eithriadol y byddai’r Ysgrifennydd Parhaol yn rhoi cyfrif amdanynt. Byddai egwyddor penodi i swyddi yn hytrach na graddfeydd yn cael ei weithredu, gan gadw mewn cof bod rhaid cwrdd â rhai cymwyseddau cyffredinol penodol. Byddai ansawdd y wybodaeth sy’n cael ei chynhyrchu gan y Cynulliad ynglyn â recriwtio yn cael ei wella yn dilyn y cylch diwethaf o hyrwyddiadau.

2.3 Cyflwynwyd Sanjiv Vedi, a fydd yn gweithio ar raglen allanol y Cynulliad i sicrhau

bod gweithlu’r Cynulliad yn gynrychioliadol o bobl Cymru, i’r pwyllgor.

4. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y canolfannau asesu wedi bod yn rhan o’r

  argymhellion a wnaed gan McKenzie. Yr oedd hi’n bwysig bod y canolfannau asesu, a fyddai’n cael eu defnyddio ar gyfer profi cymwyseddau cyffredinol ar gyfer graddfeydd, yn cael eu profi yn annibynnol o ran cyfle cyfartal mewn ymgynghoriad gyda’r Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a’r Comisiwn Hawliau i’r Anabl. (**pwynt gweithredu**) Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol bod angen dull asesu hyddysg wrth i benodiadau gael eu gwneud. Ni fyddai canolfannau asesu yn gweithredu profion seicometrig; byddai profion ymarferol yn cael eu defnyddio yn eu lle. Byddai ymgeiswyr yn mynd mewn i gymal olaf y dewis ar sail gyfartal oherwydd ni fyddai marciau yn cael eu trosglwyddo o’r ganolfan asesu.

- Mae’n rhaid datblygu argymhellion 7 a 9 o adroddiad McKenzie, sy’n annog recriwtio a phenodi agored i swyddi yn hytrach na graddfeydd fel blaenoriaeth.

Mae angen ymrwymiad clir i’r newid meddylfryd sy’n angenrheidiol i gyflawni hynny.

- Mynegwyd pryderon am y trosglwyddo ochrol ar staff i swyddi gwag. Dylai ymgeiswyr addas gael eu penodi i swyddi yn hytrach na defnyddio trosglwyddiadau ochrol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol bod trosglwyddiadau ochrol yn angenrheidiol i gyflawni anghenion busnes y Cynulliad a chwrdd â gofynion datblygiad personol gweithwyr. Nid oeddent hwy yr un fath â dyrchafiadau mewnol ac ni fyddent yn effeithio ar y nifer o swyddi fyddai’n destun recriwtio agored. Yr oedd hefyd yn hollbwysig i osgoi risg diswyddo staff. Noda paragraff 16 o atodiad C i’r papur yr amgylchiadau lle bydd staff yn cael eu rhoi mewn swydd heb i’r swydd gael ei hysbysebu. Roedd croeso i sylwadau gan aelodau a byddent yn cael eu cadw mewn cof pan fyddai’r eithriadau yn cael eu hailystyried.
- Fel mater o arfer da, roedd hi’n bwysig bod adborth yn cael ei roi i ymgeiswyr allanol aflwyddiannus. Roedd adborth yn arbennig o werthfawr i ymgeiswyr o leiafrifoedd du ac ethnig. Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ail-archwilio’r mater hwn yng ngoleuni pryderon aelodau.
- Gofynnwyd am ddadansoddiad o’r gost o £20,500 ar gyfartaledd i gynnal ymarfer recriwtio ar gyfer un swydd. (**pwynt gweithredu).** Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol mai ffigur arwyddol oedd hwn a amrywiai yn ôl natur y swydd. Cytunwyd y byddai dadansoddiad yn cael ei roi.
- Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth ar y gwaith a wneir i recriwtio rhagor o bobl o grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli ac i newid eu canfyddiad o weithio i’r Cynulliad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod gan y Cynulliad drefniadau cysgodi yn eu lle, yn arbennig ar gyfer lleiafrifoedd ethnig. Gofynnodd y Cadeirydd am nodyn yn egluro’r hyn a wna’r Cynulliad i ymestyn ac ennill diddordeb y grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli.
- Roedd menywod a lleiafrifoedd ethnig o hyd wedi eu tan-gynrychioli yn y graddfeydd uwch yn y Cynulliad. Cytunwyd y byddai dadansoddiad o gynrychiolaeth menywod yn y Gwasanaeth Sifil Uwch yn cael ei ddarparu.
- Mewn ymateb i gwestiwn dwedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod wedi cael dau sesiwn o hyfforddiant cyfle cyfartal. Roedd rhaglen o sesiynau undydd gwella ymwybyddiaeth i’r holl staff wedi dechrau ac roedd hyfforddiant arbenigol mewn cyfle cyfartal hefyd ar gael.
- Sicrhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol y pwyllgor ei fod yn gwbl ymroddedig i roi adroddiad McKenzie ar waith. Byddai’r papur yn cael ei ailddrafftio i gynnwys y pryderon a godwyd yn y pwyllgor a’i ddosbarthu i’r aelodau cyn ei ddosbarthu i’r staff ar gyfer ymgynghoriad. (**pwynt gweithredu**).

5. Gofynnodd y Cadeirydd am ddosbarthu’r papur fydd yn cael ei ailddrafftio i staff i’r

pwyllgor cyn iddo gael ei ddosbarthu i staff y Cynulliad. Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n angenrheidiol i ymgynghori â’r tri chorff cydraddoldeb statudol ar y defnydd o ganolfannau asesu.

**Eitem 3: Adolygiad Teithwyr-Sipsiwn**

Papur: EOC-01-02 (p. 3)

1. Croesawodd y Cadeirydd Niall Crowley, Prif Weithredwr Awdurdod Cydraddoldeb

   Iwerddon i'r cyfarfod. Amlinellodd y Prif Weithredwr waith yr Awdurdod Cydraddoldeb a sefydlwyd yn 1999. Cefnogir yr Awdurdod gan dribiwnlys ac mae wedi nodi naw sail yr oedd gwahaniaethu yn anghyfreithiol; rhyw, statws priodasol, statws teuluol, oedran, anabledd, hil, tuedd rhywiol, cred grefyddol ac aelodaeth o'r gymuned teithwyr. Cefnogir y seiliau hyn gan ddau ddarn o ddeddfwriaeth, Deddf Cydraddoldeb Cyflogaeth (1998) a'r Ddeddf Statws Gydradd (2000). Roedd gan yr Awdurdod fandad eang a oedd yn cyfuno gorfodi gyda datblygiad, a oedd wedi torri tir newydd, yn arbennig mewn perthynas â gwahaniaethu aml-sail. Roedd gan waith yr Awdurdod thema drawsbynciol, gyda mentrau yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar draws y naw sail. Roedd gan yr Awdurdod dri prif nod ar gyfer hyrwyddo a derbyn amrywiaeth; hybu ac amddiffyn hawliau â sefydlwyd; datblygu strategaethau cydraddoldeb effeithiol; a gosod cydraddoldeb wrth wraidd gwneud penderfyniadau.

2. Trafododd y Prif Weithredwr brofiadau'r Awdurdod Cydraddoldeb gyda'r gymuned deithiol yn y pwyllgor. Y gymuned deithiol oedd y grwp lleiafrifol mwyaf yn Iwerddon ac roedd ganddo anghenion penodol, yn arbennig o ran darparu nwyddau a gwasanaethau a chyflogaeth. Roedd syniadaeth polisi wedi esblygu ar faterion y teithwyr yn Iwerddon i sefyllfa lle roedd gwasanaethau yn cael eu haddasu i fod yn berthnasol i gymunedau teithwyr. Roedd tasglu wedi galluogi'r newid hwn mewn syniadaeth polisi drwy negodi cynyddol a deialog rhwng teithwyr, awdurdodau lleol a'r Llywodraeth. Adlewyrchodd gwneuthuriad polisi yn Iwerddon y newid hwn gyda deddfwriaeth yn cael ei chreu ar gyfer lletya, strategaeth iechyd ac integreiddiad cynyddol rhwng teithwyr a sefydliadau. Fodd bynnag, bu problemau gyda rhoi'r polisi hyn ar waith ac yr oedd gan yr Awdurdod amcanion gwleidyddol ac economaidd sydd angen ei datblygu.

3. 3 Ymatebodd y Prif Weithredwr i gwestiynau'r pwyllgor gan wneud y pwyntiau

canlynol:

- Mae'r Awdurdod wedi dechrau nifer o ddarpariaethau addysgol yn cynnwys annog aelodau o'r gymuned deithwyr i weithio fel cynorthwywyr

  dosbarthiadau ysgol, gwasanaeth cyswllt cartref ysgol, wedi ei rhoi'n arbennig i'r gymuned deithiol a hyfforddiant rhyng-ddiwylliannol ychwanegol i athrawon. Bu'r mentrau hyn yn gymharol llwyddiannus ar lefel ysgol gynradd a bydd yn caniatáu i'r pwyslais yn y dyfodol gael ei roi ar ddatblygiad ar lefel addysg uwchradd.

- Mae casglu data yn broblem yn Iwerddon, er bod adrannau'r Llywodraeth yn gweithio i gasglu'r ystadegau ynghyd.
- Datblygwyd strategaeth i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o'i rôl mewn gweithredu polisïau teithwyr.
- Mae tua 30,000 o aelodau yn rhan o'r gymuned deithiol yn Iwerddon sy'n cyfateb i lai nag 1 y cant o'r boblogaeth.
- Yr her i'r Awdurdod Cydraddoldeb yw'r un sy'n ymwneud â gwneud i bolisi economaidd adlewyrchu'r gwahaniaeth diwylliant sydd yn ymhlyg yn yr economïau teithwyr traddodiadol.
- Roedd hi'n anodd diffinio teithwyr-sipsiwn ac efallai na fyddai gwneud hynny yn gymorth. Diffinia'r Ddeddf Cydraddoldeb Statws y gymuned deithiol fel;

> 'cymuned o bobl a elwir yn gyffredin yn deithwyr ac sy'n cael ei dynodi (ganddynt hwy ac eraill) fel pobl sydd â hanes, diwylliant a thraddodiadau sydd yn gyffredin iddynt, ac yn hanesyddol, ffordd o fyw grwydrol ar ynys Iwerddon'.

- Roedd yn bwysig agor sianelau cyfathrebu rhwng cymunedau teithwyr a'r gwasanaeth iechyd.
- Nid yw'r problemau sy'n gysylltiedig â darparu safleoedd ar gyfer teithwyr wedi cael eu datrys eto yn Iwerddon.
- Roedd yn anodd cynorthwyo iaith frodorol y teithwyr-sipsiwn.
- Roedd yn bwysig bod polisïau yn cael eu dosbarthu i'r lefel leol i sicrhau bod gweithredu'n digwydd ar sail angen.

3.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am ei gyfraniad a chyflwynodd bapur

yn amlinellu cynigion ar gyfer Adolygiad Teithwyr-Sipsiwn y pwyllgor. Gwnaed y

pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Gwnaeth y Cadeirydd gais bod y Clerc yn ymchwilio i'r gobaith fod y pwyllgor

> yn ymweld ag Iwerddon i gasglu ffeithiau yn gynnar yng nghyfnod yr Adolygiad. (**pwynt gweithredu**) Dylai'r Clerc hefyd archwilio lleoliadau posibl ar gyfer ymweliadau safle posibl ar gyfer cychwyn yr Adolygiad.

- Cytunwyd ar y cylch gorchwyl diwygiedig a'r amserlen a gynigiwyd i'r Adolygiad. Cytunodd y pwyllgor na fyddai penodi ymgynghorydd arbenigol yn golygu cael hysbysebion am dâl mewn papurau newydd a chytunwyd ar y penodiad gyda'r amod hwn. Dylai'r cyfnod amser ar gyfer penodi yr ymgynghorydd arbenigol fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu adolygiad estynedig.

**Eitem 4 Diweddaru'r Polisi Caffael**

Papur: EOC-01-02 (p. 4)

1. Cyflwynodd Cadeirydd y papur oedd yn amlinellu'r datblygiad a wnaed wrth sicrhau cydraddoldeb cyfle drwy bolisi caffael y Cynulliad.
2. Gwnaed y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Datblygodd y Cynulliad gronfa wybodaeth sy'n rhestru cwmnïau a ymrwymodd i'r Côd Gwirfoddol.
- Byddai cwmnïau a ymrwymodd i'r Côd Gwirfoddol yn cael eu hysbysu o gyfleoedd i roi cynnig am gytundebau pan ddigwyddant
- Nid oedd angen polisi ysgrifenedig penodol ar gwmnïau bach i ymrwymo i'r Côd Gwirfoddol.
- Byddai pob cytundeb dros £1 filiwn yn cael ei archwilio i sicrhau bod egwyddorion perthnasol y Côd yn eu lle. Byddai'r Cynulliad yn ymateb pe na bai cwmnïau a ymrwymodd i'r Côd yn gweithredu ei egwyddorion. Byddai sampl o arferion y cwmni yn cael ei archwilio mewn tendrau rhwng £100,000 a £1 miliwn.
- Nid oedd y Cynulliad mewn sefyllfa i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ar y Côd er y gellir gofyn am gyngor ar weithredu'r Côd gan y cyrff cydraddoldeb statudol, ac mae cysylltiadau i'w gwefannau. Paratowyd y Côd mewn ymgynghoriad â'r cyrff cydraddoldeb hyn.
- Dosbarthwyd y Côd i'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mewn amser gobeithir ymestyn y gronfa ddata i gael ei defnyddio gan gyrff cyhoeddus ar draws Cymru. Gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad ymhen chwe mis ar y nifer o gyrff felly a fabwysiadodd y côd a'r datblygiad a wnaed gan isadrannau'r Cynulliad ar ymestyn y côd i dderbynwyr grantiau (**pwynt gweithredu**).

**Eitem 5: Tâl i aelodau cyrff cyhoeddus**

Papur: EOC-01-02 (p.5)

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur gan nodi y byddai'r materion a godwyd yn

cael eu trosglwyddo i'r Cabinet i'w trafod ymhellach. (**pwynt gweithredu**).

2. Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nid oedd y tâl a gynigir i gadeiryddion cyrff megis y WDA yn cydnabod lefel y cyfrifoldeb oedd yn ofynnol a dylid eu hystyried ar wahân.
- Roedd hi'n bwysig ystyried y nifer o ddiwrnodau gwaith ynghyd â'r raddfa ddyddiol.
- Dylid ymgorffori cadeiryddion Ymddiriedolaethau GIG un band tâl
- Dylid ailystyried lefel dyddiol y tâl yn unol â'r hyn y byddai ymgynghorwyr annibynnol yn gallu'i ennill.

- Cytunai’r pwyllgor bod y cynigion yn cynrychioli gwelliant sylweddol, yn arbennig o ran tryloywder a chysondeb.

2. Dywedodd y Cadeirydd bod y Cabinet yn fodlon gydag egwyddorion y papur, er

   y byddai’r materion a godwyd gan y pwyllgor yn cael eu trafod ymhellach. Gofynnodd y Cadeirydd i’r aelodau roi unrhyw bryderon ychwanegol ynglyn â’r polisi mewn ffurf ysgrifenedig.

**Eitem 6: Cyfarwyddebau Cyflogaeth Hil**

1. Croesawodd y Cadeirydd Jonathan Booth a Roger Dennison o Gangen

   Amrywiaeth a Chydraddoldeb yn yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI). Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad ar y ddogfen ymgynghorol ‘Towards Equality and Diversity’, sy’n amlinellu ymagwedd y llywodraeth tuag at weithredu’r Cyfarwyddebau Cyflogaeth a Hil Ewropeaidd. [Atodir copi o’r cyflwyniad i’r cofnodion hyn yn Atodiad A.] [Cliciwch yma i gael gweld y cyflwyniad]

2. Gwahaniaetha’r Cyfarwyddebau Cyflogaeth a Hil mewn cwmpas ac effaith, yn erbyn cefndir deddfwriaeth bresennol y DU ar gydraddoldeb. Bydd deddfwriaeth newydd yn cael ei chreu yn gwahardd camwahaniaethu yn y gwaith ar sail tuedd rhywiol, crefydd neu oedran. Yn ychwanegol, byddai angen gwneud gwelliannau, technegol o ran ei natur yn bennaf, i’r Deddf Cysylltiadau Hiliol a’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Er bod gan wahanol ddarpariaethau amserlenni gwahanol ar gyfer eu rhoi ar waith, yr oedd y Llywodraeth wedi ymrwymo i gydlynu cyflwyno deddfwriarth newydd lle yr oedd hynny’n bosibl; a sicrhau cydlyniaeth rhwng llinynau o ddeddfwriaeth drwy ddefnyddio yr un cysyniadau a gweithrediad lle yr oedd hynny’n ymarferol.
3. Amlinellodd yr Adran Masnach a Diwydiant ddewisiadau ar rai pynciau cyffredinol yn cynnwys:

- diffiniadau o wahaniaethu anuniongyrchol ac aflonyddu.
- Darparu cyngor, arweiniad a chymorth i unigolion a chyflogwyr, yn arbennig ar y sail newydd, sef cyfeiriadedd rhywiol, crefydd ac oedran.

1. Adroddodd yr Adran Masnach a Diwydiant hefyd ar rai materion allweddol oedd yn berthnasol i ‘linynau’ arbennig a godwyd hyd yn hyn yn ystod yr ymarfer ymgynghori. Yn arbennig:

- Crefydd a chred. Ar sail ymgynghori anffurfiol eang, yr oedd Llywodraeth y DU wedi cynnig peidio â diffinio "crefydd na chred" yn wyneb deddfwriarth newydd. Cynebydd Llywodraeth y DU bod angen cyflwyno arweiniad yn gynnar a byddai‘n datblygu yn y maes hwn.

- Cyfeiriadedd rhywiol. Canolbwyntiodd y drafodaeth hyd yn hyn ar ddiffiniad posibl i "cyfeiriadedd", yr ystod o ymddygiadau a fyddai’n cael eu gwahardd o dan y diffiniadau a gynigir i aflonyddu; a’r goblygiadau i’r Gyfarwyddeb Gyflogaeth ar gyfer pensiynau galwedigaethol.
- Oedran. Byddai angen gweithredu deddfwriaeth newydd erbyn Rhagfyr 2006. Yn y cyfnod ymgynghori cyntaf hwn yr oedd Llywodraeth y DU yn edrych am enghreifftiau o ffyrdd lle y mae unigolion yn cael eu trin yn wahanol ar sail oedran, a syniadau ar a ellid cyfiawnhau gwahaniaethau o’r fath – neu a ddylid eu gwahardd.

Yr oedd yr ymgynghoriad hefyd yn cwmpasu materion yn ymwneud â, hil ac

Anabledd. Yr ymarfer hwn, sy’n dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2002,

oedd y cyntaf mewn cyfres. Y bwriad oedd cynhyrchu deddfwriaeth ddrafft yn yr

Hydref fel sail i ymgynghoriad pellach.

6.5 Esboniodd yr Adran Masnach a Diwydiant y pwyntiau a godwyd gan y

pwyllgor:

- Roedd y ddogfen yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg ac roedd copïau

  o’r ddogfen ymgynghorol ar gael mewn copi caled ac ar y Rhyngrwyd.

- Roedd yr ymagwedd tuag at ymgynghori ar oedran yn llai penodol oherwydd bod yr agwedd hon ar y Gyfarwyddeb yn codi pynciau cymharol dechnegol a chymhleth. Roedd ymgynghori blaenorol wedi dynodi angen i ystod eang o fudd-ddeiliaid i gael rhan yn y gwaith o fapio’r materion hyn, cyn ymgynghori ar set o gynigion ar gyfer eu gweithredu. Byddai ymgynghori pellach yn digwydd yn ystod Hydref 2002.
- Dangosodd Llywodraeth y DU ei chred, yn y tymor hir, bod dadleuon o blaid un comisiwn statudol yn cynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth integreiddiedig ar faterion cydraddoldeb. Croesewir barn ar y rhan hon o’r ymgynghoriad. Ond yr oedd angen gwneud llawer o waith i ymchwilio i’r materion oedd ymhlyg yn hyn. Yr oedd Swyddfa’r Cabinet ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau i ddatblygu hyn.
- Barn Llywodraeth y DU oedd y byddai rheolau pensiwn sy’n cyfyngu buddiannau yr un sy’n goroesi yn unig i gymar priod yn parhau i gael eu caniatáu o dan y Gyfarwyddeb. Yr oedd manteision ac anfanteision newid y math yma o arfer a rheolau pensiwn yn gyffredinol, yn gorwedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.
- Roedd y Cyfarwyddebau yn cwmpasu hyfforddiant galwedigaethol ond nid oeddent yn cwmpasu darparu nwyddau a gwasanaethau yn fwy cyffredinol. Nid oedd y ddogfen ymgynghori ychwaith yn cynnwys cynigion i ymestyn cwmpas y ddeddfwriaeth newydd ar gyfeiriadedd rhywiol,

crefydd nac oedran ar ôl gweithio. Dywedodd Barbara Roche AS yn ei rhagair "na fydd y Cyfarwyddebau yn ddiwedd y daith ar Gydraddoldeb". Ond, "yn ystod y dyfodol agos, mae eu gweithredu [y Cyfarwyddebau] yn waith sylweddol ac mae angen i'r [Llywodraeth] gael amser i'w wneud yn iawn."

- Roedd Llywodraeth y DU yn cysylltu â'i phartneriaid Ewropeaidd ar lefel Gweinidogion a swyddogion ynglyn â gweithredu'r Cyfarwyddebau a datblygiadau cysylltiedig.

6. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Yn wahanol i ddeddfwriaeth y DU sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae'r Cyfarwyddebau yn ymwneud â sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Yr oedd hi felly'n bwysig bod y sector preifat yn barod ar gyfer eu gweithredu.
- Byddai problemau mewn diffinio crefyddau a byddai angen rhoi ystyriaeth i arferion a gwerthoedd gwahaniaethol posibl mewn rhai crefyddau.
- Byddai angen siecio diffiniadau cydraddoldeb sydd yn bodoli'n gyfredol yn neddfwraieth y DU yn erbyn diffiniadau yn y Cyfarwyddebau. Dylid derbyn yr un cryfaf.
- Byddai cyflwyno polisi o ran cyfeiriadedd rhywiol yn anodd heb gael diffiniad cyflawn o'r tymor.
- Dylai'r llywodraeth ystyried gwerth ymestyn deddfwriaeth newydd i gwmpasu darparu nwyddau a gwasanaethau.

6. Dywedodd y Cadeirydd y dylai ystyriaeth o ymateb y Cynulliad i'r

Cyfarwyddebau Cyflogaeth a Hil gael ei drefnu i gael ei drafod

yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** EOC – 08-01 (min)

1. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.
2. Nododd y Pwyllgor y papur ar y Mesur Diogelwch Troseddau Gwrth

Derfysgaeth (EOC- 01-02 (p 6) a Chrynodeb yr astudiaeth cwmpas ar y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus (EOC-01-02 (p 7)

7.3 Hysbysodd Mashuq Ally y Pwyllgor bod y dyletswyddau penodol a amlinellwyd yn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer Cynllun

Cydraddoldeb Hil i gael ei roi ar waith gan gyrff cyhoeddus erbyn 31 Mai 2002.

Gosododd y ddarpariaeth hon ddyletswydd ar sefydliadau i edrych ar eu swyddogaethau a'u polisïau mewn perthynas â'r Ddeddf. Addawodd y Cadeirydd ysgrifennu at gyd – Aelodau'r Cabinet a'r Llywydd am y gofynion i gydymffurfio â'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad). (**pwynt gweithredu**).

Daeth y cyfarfod i ben am 12.33pm